*Datganiad i'r Cyfryngau*
*19 Medi 2023*
*I'w ryddhau ar unwaith*

# Prosiect Sinema Gymunedol newydd dair blynedd yn lansio ar draws Gogledd Cymru

Mae Cerddoriaeth a Ffilm Gymunedol TAPE yn lansio prosiect sinema newydd i gymunedau ar draws Gogledd Cymru, gyda chefnogaeth gan Ganolfan Ffilm Cymru.

Mae TAPE, sy'n arbenigo mewn cynhwysiant creadigol, wedi creu prosiect ar y cyd â'u Clwb Cyfryngau – lle diogel a chefnogol sy'n cynnig profiadau ymarferol i garfan o bobl o'r gymuned leol.

Bydd 'Neighbourhood Watch', a enwyd gan Josh, un o aelodau'r Clwb Cyfryngau, yn lansio gyda dangosiad o'r ffilm gomedi *Brian and Charles* – a ffilmiwyd yn lleol ac a enwebwyd am wobr BAFTA – yng Nghanolfan Deulu Llanrwst ddydd Gwener 22 Medi. Gyda gwesteion arbennig ac ambell i syrpreis i'r gynulleidfa!

**Mae Josh yn edrych ymlaen yn arw at y digwyddiad cyntaf:**

*"Dw i'n hoffi'r syniad o ddod â'r gymuned ynghyd drwy ffilm. Dw i'n falch o fod yn rhan o hyn."*

***Esbonia Steve Swindon, Cyfarwyddwr Creadigol TAPE sut mae'r Clwb Cyfryngau yn gweithio a pham fod angen y prosiect hwn:***

*"Gallwn ddod â phobl ynghyd drwy Glwb Cyfryngau a gweithio fel tîm i ddatblygu prosiectau hynod gyffrous a fydd yn gyswllt i nifer o gyfleoedd creadigol. Mae Neighbourhood Watch yn brosiect hynod gyffrous am sawl rheswm. Mae'n adeiladu ar waith y grŵp o raglennu ffilmiau a'r ystod eang o ddangosiadau a digwyddiadau a gynhaliwyd ganddynt. Mae e hefyd yn symud y gwaith i gymunedau ar draws Gogledd Cymru ac yn cysylltu pobl mewn ffyrdd newydd drwy'r gweithdai sy'n rhedeg ochr yn ochr. Rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at gychwyn arni."*

Bydd Neighbourhood Watch yn dod â dangosiadau misol o ffilmiau annibynnol y DU a ffilmiau rhyngwladol i hyd at bum cymuned rhwng 2023-26, gyda'r potensial i ehangu i ardaloedd eraill gan gynnwys Ynys Môn a Llanfairfechan. Bydd cyfle i'r cymunedau sy'n cymryd rhan i ddatblygu sgiliau megis archebu ffilmiau a marchnata digwyddiadau, gan wneud ffrindiau a thyfu eu rhwydweithiau proffesiynol. Bydd gan bob dangosiad weithdy, westai neu ddosbarth meistr, yn ogystal â'r cyfle i gymryd rhan yn natblygiad prosiect ffilm hir nesaf TAPE, sef *Below the Waves*, a ariannwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

***Ychwanegodd Hana Lewis, Rheolwr Strategol Canolfan Ffilm Cymru:***

*"Mae gymaint o arloesi yn digwydd ar draws Gogledd Cymru, ond fe wyddom nad yw'n bosib i gymunedau fynychu digwyddiadau bob tro, pa un ai a ydi hynny o ganlyniad i'r*

*argyfwng costau byw, cysylltiadau trafnidiaeth gwael neu ddiffyg gwasanaethau lleol. Y gymuned fydd yn arwain Neighbourhood Watch, gan greu awch am ffilmiau ar eu stepen drws. Mae Clwb Cyfryngau TAPE yn byrlymu â syniadau creadigol ynglŷn â sut i arwain y prosiect yn eu hardal nhw mewn ffordd gynhwysol – ac mae hyn mor bwysig i ni. Ein gobaith yw y bydd eu gwaith yn annog rhagor o bobl i fynd i'w sinema, gan gefnogi sinemâu a gwyliau lleol yn y tymor hir."*

Mae BFI FAN yn rhaglen genedlaethol sydd yn bodoli diolch i gyllid y Loteri Genedlaethol sy'n ceisio sicrhau'r dewis gorau posib o sinema i bawb ledled y DU. Yng Nghymru gweinyddir y cyllid gan Ganolfan Ffilm Cymru, drwy Chapter. Cynlluniwyd prosiect Neighbourhood Watch i ateb amcanion Diwylliant Sgrin 2033 sef strategaeth 10 mlynedd y BFI a lansiwyd yn ddiweddar.

Bob wythnos mae'r Loteri Genedlaethol yn codi dros £30M ar gyfer achosion da ledled y DU.

- **DIWEDD** -


**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:**

Sarah Chew, Swyddog Marchnata ac Allgymorth, ar 02920 311 057 / sarah@filmhubwales.org
Lisa Nesbitt, Swyddog Datblygu, ar 02920 311 067 / lisa@filmhubwales.org
Hana Lewis, Rheolwraig Strategol, ar 02920 353 740 / hana@filmhubwales.org

Os hoffech wybod mwy am TAPE neu'r Clwb Cyfryngau yna cysylltwch â
Steve drwy e-bostio: steve@tapemusicandfilm.co.uk


**Dangosiadau Ffilm**

**Lleoliad**: Canolfan Deulu Llanrwst, Church House, Heol Watling, Llanrwst LL26 0LS

**7pm, Dydd Gwener 22 Medi: Noson Lansio**
**Mae tocynnau ar gael gan TAPE, Academi Ryder a Chanolfan Deulu Llanrwst ar gyfer gwesteion gwadd.**
**Brian and Charles (gyda sesiwn holi ac ateb)**
Mae Brian yn ddyfeisiwr unig yng nghefn gwald Cymru, sy'n adeiladu dyfeisiau rhyfedd sydd bron byth yn gweithio. Yn fuan mae'n cychwyn ar ei brosiect fwyaf erioed – ac yn treulio tridiau yn troi peiriant golchi dillad a darnau sbâr i mewn i Charles, robot gyda deallusrwydd artiffisial sy'n dysgu siarad Saesneg o eiriadur ac sydd ag obsesiwn â bresych. Ffilmiwyd Brian and Charles yn Llyn Gwynant, Ysbyty Ifan, Trefriw, Cwm Penmachno, Betws y Coed a Llangernyw.

**Rhagwelir y bydd dangosiadau pellach ar y dyddiadau canlynol: Dydd Gwener 27 Hydref gyda bil dwbl ar gyfer Calan Gaeaf, dydd Gwener 24 Tachwedd a detholiad Nadoligaidd ddydd Gwener 15 Rhagfyr. Bydd gweithdai creadigol a / neu sesiynau holi ac ateb ynghlwm â phob dangosiad. Cadwch lygad ar wefan TAPE i gael manylion ynglŷn â sut i archebu tocynnau.**

**Ynglŷn â Chanolfan Ffilm Cymru**
Mae Canolfan Ffilm Cymru (CFfC) yn dathlu sinema. Rydym yn cefnogi cyrff sy'n dangos ffilmiau – o wyliau ffilmiau i gymdeithasau a chanolfannau celfyddydau cymysg. Wrth gyd-weithio gyda dros 315 o arddangoswyr ein bwriad ydy cynnig y ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol gorau i bob cynulleidfa ar draws Cymru a'r DU. Ers sefydlu Canolfan Ffilm Cymru yn 2013 rydym wedi cefnogi dros 300 o brosiectau sinema a chyrraedd dros 560,000 o aelodau cynulleidfa.

Rydym yn rhan o rwydwaith wyth canolfan yn y DU a gyllidir gan y Sefydliad Ffilm Prydeinig (BFI) fel rhan o Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN), mae Chapter wedi'i benodi fel y Corff Arwain Canolfan Ffilm (FHLO) yng Nghymru.

Rydym hefyd yn falch o arwain ar strategaeth sinema cynhwysol ar ran FAN BFI.
Gwefan, Twitter, Facebook, Instagram

**Ynglŷn â Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI**
Gyda chefnogaeth cyllid y Loteri Genedlaethol, mae FAN BFI yn ganolog i nod y BFI o sicrhau bod y dewis mwyaf o ffilm ar gael i bawb. Wedi'i sefydlu yn 2012 i adeiladu cynulleidfaoedd sinema DU ehangach a mwy amrywiol i ffilmiau DU a rhyngwladol, mae FAN yn gydweithrediad DU cyfan, unigryw sydd yn cynnwys wyth o ganolfannau a reolir gan gyrff a lleoliadau ffilm amlwg wedi'u lleoli'n strategol o amgylch y wlad. Mae FAN hefyd yn cefnogi datblygiad talent gyda Swyddogion Talent Rhwydwaith BFI ym mhob un o'r canolfannau yn Lloegr, gyda chenhadaeth o ddarganfod a chefnogi awduron, cyfarwyddwyr a chyfarwyddwyr talentog ar ddechrau eu gyrfaoedd.

Canolfannau Ffilm FAN BFI:

- Canolfan Ffilm y Midlands dan arweiniad Broadway, Nottingham yn gweithio mewn partneriaeth gyda Flatpack Birmingham
- Canolfan Ffilm Gogledd Lloegr dan arweiniad Showroom Workstation, Sheffield a HOME Manceinion
- Canolfan Ffilm De Ddwyrain Lloegr dan arweiniad Swyddfa Sinema Annibynnol
- Canolfan Ffilm De Orllewin Lloegr dan arweiniad Watershed ym Mryste
- Canolfan Ffilm yr Alban dan arweiniad Glasgow Film Theatre
- Canolfan Ffilm Gogledd Iwerddon dan arweiniad Queen's University Belfast
- Canolfan Ffilm Cymru dan arweiniad Chapter yng Nghaerdydd
- Canolfan Ffilm Llundain dan arweiniad Film London

Gwefan

**Ynglŷn â'r BFI**
Rydym yn elusen ddiwylliannol, dosbarthydd y Loteri Genedlaethol a chorff arweiniol y DU ar gyfer ffilm a'r ddelwedd symudol. Ein cenhadaeth ydy:

- Cefnogi creadigrwydd a chwilio am y genhedlaeth nesaf o adroddwyr straeon y DU
- Tyfu a gofalu am Archif Cenedlaethol BFI, archif ffilm a theledu mwyaf y byd
- Cynnig yr amrediad ehangaf o ddiwylliant delwedd symudol DU a rhyngwladol drwy ein rhaglenni a'n gwyliau – ar-lein ac mewn lleoliadau

- Defnyddio ein gwybodaeth i addysgu a dyfnhau gwerthfawrogiad a dealltwriaeth y cyhoedd
- Gweithio gyda Llywodraeth a diwydiant i sicrhau twf parhaol diwydiannau sgrin y DU

Wedi'i sefydlu ym 1933, mae'r BFI yn elusen gofrestredig a reolir gan Siarter Brenhinol. Cadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr BFI ydy Tim Richards.
Gwefan, Facebook, Twitter

**Ynglŷn â Chapter**
Sefydlwyd Chapter gan artistiaid ym 1971, fel canolfan ryngwladol ar gyfer celfyddydau a diwylliant cyfoes. Mae'n gartref i'r celfyddydau, lle cynhyrchir a chyflwynir gwaith dyfeisgar, apelgar o'r radd flaenaf. Mae eu horiel yn comisiynu ac yn cynhyrchu arddangosfeydd o gelfyddyd gorau'r wlad a'r byd. Mae eu gofodau theatr yn llwyfan i waith arbrofol sy'n procio'r meddwl. Mae eu sinemâu yn cynnig ffilmiau rhyngwladol a heriol ochr yn ochr â nifer o wyliau a digwyddiadau. Mae'r sinemâu yn dod â rhagor o ffilmiau i ragor o bobl mewn rhagor o leoedd drwy Ganolfan Ffilm Cymru.

Ochr yn ochr â'i rhaglen graidd, mae Chapter hefyd yn gartref i 56 o artistiaid a chwmnïau creadigol sy'n gweithio yn eu stiwdios. O animeiddwyr a chwmnïau cynhyrchu ffilmiau sydd wedi ennill gwobrau, i artistiaid, dylunwyr a ffotograffwyr, yn ogystal â chwmni fframio celf, argraffwyr a stiwdios recordio. Mae'r gymuned greadigol wrth galon holl weithgarwch Chapter.

Daw'r rhaglen a'r gymuned ynghyd yn eu Caffi Bar sydd wedi ennill gwobrau. Gyda lle i hyd at 120 o bobl eistedd, mae'r caffi yn lle gwych i gyfarfod ffrindiau, darganfod lle tawel i weithio, neu i fwynhau diod neu damaid o fwyd blasus, ffres wedi'i baratoi â chynhwysion a brynwyd yn lleol, o fwydlen eang.
Gwefan, Facebook, Twitter, Instagram

**Ynglŷn â Cherddoriaeth a Ffilm Gymunedol TAPE**
Mae Tape, sy'n ymfalchïo mewn hygyrchedd a chynhwysiant, wedi bod yn darparu cyfleoedd cynhwysol, cefnogol, o ansawdd uchel a dan arweiniad pobl ers 2008.

O sesiynau blasu 1 awr o hyd a dangosiadau ffilm i gytundebau masnachol a chynhyrchu ffilmiau hir, mae darpariaeth TAPE yn rhoi cyfleoedd i bobl archwilio a datblygu eu creadigrwydd.

Mae TAPE yn cefnogi unigolion a grwpiau, gan gydweithio â phobl o bob oedran a phob lefel o brofiad, gan sicrhau eu bod yn rhan ganolog o'r broses greadigol. O'r rheiny sy'n ymarfer yn greadigol am y tro cyntaf i raddedigion a gweithwyr proffesiynol, gall yr elusen gynnig hyfforddiant, cefnogaeth a chyfleoedd.
Gwefan, Facebook, Twitter, Instagram